CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
(HEOL CAERDYDD A FFYRDD CYFAGOS – Y DDRAENEN-WEN)
GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO) 2026

DATGANIAD O RESYMAU

Yn dilyn adolygiad o'r ardal, mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg ar Heol Caerdydd ac wrth y cyffyrdd cyfagos, sef Stryd Gwilym, Stryd Owen, Stryd De Barri, Stryd y Tuduriaid, Coedlan Nant-y-dall, Stryd Francis, Ymyl Yr Afon, Glanfelin, Rhodfa Sant Luc, y Ddraenen-Wen ac Y Tyle er mwyn:

- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd, neu unrhyw ffordd arall, ac atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi
- Hwyluso'r broses o deithio ar hyd y ffordd neu unrhyw ffordd arall sy'n cynnwys traffig o unrhyw fath (gan gynnwys cerddwyr)

Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau ei bod hi'n haws i gerbydau deithio a symud ar hyd y rhannau o'r ffordd sydd wedi'u heffeithio trwy sicrhau nad oes unrhyw gerbydau'n parcio ar hyd y ffordd.

Byddai'r cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg arfaethedig hefyd yn gwella gweledded wrth y cyffyrdd dan sylw. Felly, byddai hyn yn rhoi mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr yn croesi'r ffordd a cherbydau sy'n dod tuag atyn nhw neu'n troi i mewn neu allan o'r cyffyrdd yma, gan leihau'r perygl o wrthdrawiad.

Byddai'r cyfyngiadau hefyd yn berthnasol i'r darnau o lwybr troed sy'n rhedeg ar eu hyd, gan helpu i'w cadw'n glir o barcio a allai fel arall rwystro'r llwybr troed. Felly, byddai'r newidiadau yma'n lleihau'r angen i'r rheiny sy'n cerdded ac yn olwyno deithio'n uniongyrchol ar y briffordd er mwyn osgoi cerbydau sydd wedi'u parcio ar y droedffordd ac yn lleihau'r angen i gerddwyr groesi'r ffordd o'r tu ôl i gerbydau sydd wedi'u parcio wrth y cyffyrdd sydd wedi'u heffeithio. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i gerddwyr fynd ar hyd y ffordd.

Yn ogystal â hyn, drwy helpu i sicrhau bod lled llwybrau troed yn cael ei gynnal ar ffyrdd sydd wedi'u heffeithio, byddai'n haws i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd ac i'r rhai â chadeiriau gwthio deithio ar y llwybr troed, gan greu amgylchedd llwybr troed mwy hygyrch i bawb.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg, fyddai dim modd i ddeiliaid bathodyn glas barcio ar y darnau o'r ffordd lle mae'r cyfyngiadau yma'n cael eu cynnig.

RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL
(CARDIFF ROAD AND ADJOINING ROADS, HAWTHORN)
(WAITING AND LOADING RESTRICTIONS) ORDER 2026

STATEMENT OF REASONS

Following a review of the area, The Council has developed proposals to introduce prohibition of waiting and loading at any time restrictions in Cardiff Road and at the junctions adjoining Cardiff Road in Gwilym Street, Owen Street, De-Barri Street, Tudor Street, Nant-Y-Dall Avenue, Francis Street, Ymyl Yr Afon, Glanfelin and St. Luke's Avenue, Hawthorn and The Rise in order to:

- Avoid danger to persons or other traffic using the road or any other road or to prevent the likelihood of any such danger arising
- Facilitate the passage on the road or any other road of any class of traffic (including pedestrians)

The proposed changes will help to ensure that vehicles are able to manoeuvre the affected lengths with greater ease by keeping these lengths clear of parking, therefore facilitating passage.

The lengths of prohibition of waiting and loading at any time restrictions proposed at the mentioned junctions would also increase in visibility at said junctions. This would allow drivers more time to react to oncoming hazards such as pedestrians crossing the road and oncoming vehicles turning into or out of these junctions, therefore reducing risk of collision.

The restrictions would also apply to the lengths of footway running alongside, helping to keep them clear of parking which may otherwise obstruct the footway. These changes would therefore reduce the need for those walking and wheeling in the area to travel directly in the highway to avoid vehicles parked on the footway and reduce the need for pedestrians to cross from behind parked vehicles at the affected junctions, therefore better facilitating passage for pedestrians.

Additionally, by helping to ensure footway widths are maintained at the affected lengths it would become easier for those using wheelchairs or mobility aids and for those with pushchairs to travel on the footway, creating a more accessible footway environment for all.

Due to there being both a prohibition of waiting and loading at any time, blue badge holders would not be able to park on the lengths of road where these restrictions are proposed